



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 42  
MAWRTH 2012

Ydych chi'n hoffi ymweld ag arddangosfeydd? Wel, cewch gyfle ar ddiwedd mis Mawrth i ymweld ag arddangosfa hynod bwysig sy'n dod i Aberystwyth am gyfnod o bythefnos.

O ddydd Llun, 26ain Mawrth i ddydd Gwener, 6ed Ebrill cynhelir arddangosfa y Prosiect Maddeuant yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth. Sefydlwyd y Prosiect hwn yn 2004 gan newyddiadurwraig o'r enw Marina Cantacuzino a'r ffotograffydd Brian Moody. Casglwyd straeon a lluniau ganddynt o bobl yn cymodi ac yn maddau i'w gilydd o bedwar ban byd. Erbyn hyn, mae'r prosiect wedi cael ei arddangos mewn gwledydd megis Canada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau ac mae wedi derbyn clod mawr. Yn ogystal mae nifer o bobl amlwg wedi tystio i werth y prosiect megis Terry Waite, Helen Mirren a'r Archesgob Desmond Tutu. Mae'n arddangosfa rymus iawn a dyma a ddywedodd yr Archesgob Desmond Tutu amdani:

*Forgiveness does not mean condoning what has been done. It means taking what has happened seriously and not minimising it; drawing out the sting in the memory that threatens to poison our entire existence. In these forgiveness stories there is real healing.*

Bwriad y prosiect yw ceisio helpu pobl i adeiladu dyfodol di-drais drwy rannu storïau 22 o bobl a ddioddefodd drais, trallod ac anghyfiawnder yn y gorffennol ond a ddysgodd faddau a chymodi. Y nod yw annog pobl sy'n ymweld â'r arddangosfa i geisio ystyried gwerth maddau yn hytrach na dial yn eu bywydau bob dydd. Ceir storïau o Brydain, De Affrig, America, Gogledd Iwerddon, Israel a Phalesteina.

Mae Bethel a Horeb ymhlith yr eglwysi hynny yn Aberystwyth a'r cylch a gyfrannodd at y gost o gael yr arddangosfa yma i'r dref ac estynnir gwahoddiad arbennig inni i fynychu'r noson agoriadol pan fydd gwraig o'r enw Marian Partington yn dod i rannu ei stori. Bu farw chwaer Marian, Lucy, o dan law Fred a Rosemary West nôl yn y saithdegau a chawn glywed gan Marian am ei phrofiad yn maddau iddynt am yr hyn a wnaed i'w chwaer. Mae'n siwr y bydd gwrando ar ei stori o gymorth mawr ac yn ysbrydoliaeth i bawb ohonom i dderbyn ac estyn maddeuant yn ein bywydau ni ein hunain, yn union fel y dysgodd ein Harglwydd Iesu Grist inni wneud.

Cofiwn am Pedr yn gofyn i'r Iesu: 'Arglwydd, pa sawl gwaith y mae fy nghyfaill i bechu yn fy erbyn a minnau i faddau iddo? Ai hyd seithwaith?' Meddai Iesu wrtho, 'Nid hyd seithwaith a ddywedaf wrthyf, ond hyd saith deg seithwaith.' (Mathew 18:21)

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW

Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

(O.N. Os oes gan rywun ddiddordeb mewn stiwardio yn yr arddangosfa yn y Morlan dewch i gysylltiad â mi.)

## CALENDR MIS MAWRTH 2012

Cyhoeddwr y Mis: William Howells	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
4 Mawrth 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Ella a Doreen
11 Mawrth 10.30yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog	
11 Mawrth 3.30yp	Horeb yn gyfrifol am gynnal Oedfa yng Nghartref Tregerddan	
18 Mawrth 2.30yp	Oedfa Bregethu: Gweinidog	Gofal y Te: I'w drefnu
25 Mawrth 10.30yb	Oedfa Bregethu : Huw Roderick	
1 Ebrill 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwen

### I'CH DYDDIADUR

- 5 Mawrth: Cinio Bara Caws yn Neuadd yr Eglwys, Llanbadarn o 12.15-1.30yp
- 14 Mawrth: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
- 19 Mawrth: Cyfarfod Bethel a Horeb ar y cyd ym Methel am 6yh.
- 21 Mawrth: Cymdeithas Bethel am 2yp: *Coginio ar gyfer y Pasg* yng nghwmni Meryl.
- 21 Mawrth: Noson Lansio Cyfrol y Parchedig Desmond Davies, *Pobl y Porth Tywyll* yn y Tabernacl, Caerfyrddin.
- 22 Mawrth: Os Mêts
- 24 Mawrth: Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth yng nghwmni Caryl Parry Jones. Enwau i Ceris erbyn 18 Mawrth
- 26 Mawrth: Noson Agoriadol Arddangosfa *Delweddau Maddeuant*, Morlan.
- 26 Mawrth - 6 Ebrill: Arddangosfa *Delweddau Maddeuant*, Morlan.
- 27 Mawrth: Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb am 7.30yh
- 28 Mawrth: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.
- 28 Mawrth: Rihysal Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth am 7.00yh.
- 18 Ebrill: Cymdeithas Bethel am 2yp: *Brodwaith a Thapestri* yng nghwmni Gwen Jones.
- 24 Mehefin: Gwibdaith Bethel a Horeb i Bantycelyn. Manylion i ddilyn.
- 6 Hydref: Diwrnod i'r Brenin. Gŵyl Gristnogol i bawb o bob oed. Maes y Sioe, Llanelwedd. Trefnir ar y cyd rhwng Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

### LLOFFION

- Dymuniadau gorau i Mrs Mona Edwards sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella!  
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu y ddiweddar chwaer Mrs Menna Jenkins a fu farw yn ddiweddar.  
Cydymdeimlwn hefyd â Lynn, Cefn Llwyd a'r teulu ar golli modryb.  
Llongyfarchiadau i Dei, Cefn Llwyd ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.  
Noson Gremnog: Diolch yn fawr i Sandra, Mansel a Sara am y cremnog; i William am drefnu'r cwis ac i Merfyn am gynorthwyo gyda'r arlwygo a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson. Tîm Tom Sedgwick oedd yn fuddugol yn y cwis.  
Llongyfarchiadau! Casglwyd cyfanswm o £75-80 ar gyfer Llyfrau Llafar Cymru.  
Diolch i Parti Merched Horeb a fu'n diddanu yn Noson Cawl a Chân y Cylch Meithrin.  
Diolch i bawb a fu wrthi yn cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer angladd Mrs Menna Jenkins.

Rhaglen Cymanfa Ganu 2012: Copïau ar gael gan Ceris am £1.30